# Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs: Supporting the Welsh Language Grant to Change Operational Language to Welsh Clwb Plant Llandegfan, Anglesey

Clwb Plant Llandegfan operates from a room within Llandegfan Primary School. The service accepts children between the ages of 4-12 years old and is registered to provide care for a maximum of 24 children. Patricia Roberts is the person in charge of the day to day running of the service.


Clwb Plant Llandegfan began on their Welsh Promise journey in May 2023 as a bilingual service who was working towards the Welsh Government's 'Active Offer' in relation to the Welsh language. Following support through the Bronze Promise from our dedicated Welsh Language Childcare Development Office (WLCBDO) Elliw Pierce, the commitment from Patricia Roberts, person in charge, and staff to become a Welsh language setting and to offer the Welsh language Active Offer became evident quickly. To further support Llandegfan to become a Welsh language setting they were also supported to access Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs grant to Change Operational Language to Welsh, funded through our CYMell project.

The grant is available to support CIW registered settings who work with their Childcare Business Development Officer to change their operational language to Welsh, allowing them to cover the costs involved, including; administration of changing registration details with CIW, and translation of policies, signage and marketing. The grant may also be used to support sustainability as they market their provision in their new language and train or recruit new staff with appropriate language skills.

Elliw and Patrica collaborated extensively in January 2024 to continue to progress through the Silver Welsh Promise and to support as they worked towards altering their operational language. Clwb Plant Llandegfan informed Care Inspectorate Wales (CIW) in September 2024 that the service is now operating in Welsh. They will now continue onto the Gold Welsh Promise award and work towards achieving their own Cynnig Cymraeg through the Welsh Language Commissioner's Office.

The leader of Clwb Plant Llandegfan, Patricia, said that although the Active Offer had been noted as a good practice during an inspection, prior to the release of "The Welsh Promise," aside from that, she knew very little about it. With the support of 'The Welsh Promise' and funding from the CYmell project, Clwb Plant Llandegfan have now changed the operational language of their provision to Welsh and firmly believes that the Welsh Promise and funding through the CYMell project has had a great impact on the setting, children and their families:

> "It is wonderful to be able to provide parent forms, documents and policies in both Welsh and English without the parents having to ask for this to be provided. This has resulted in a much more inclusive setting for children and their families. Staff have been using Welsh much more with the children and celebrating the language through activities and games. It has been heart-warming , for example at our Easter Club when the children asked me to put some music on and all of their song requests were Welsh songs! Most of the children are from English speaking homes so this certainly highlighted to me the impact we are having".
>
> Patricia also noted that "Many of the families have commented how wonderful it is to hear their children converse with siblings in Welsh at home whilst playing. Due to the very nature of our club where play is freely-chosen I firmly believe that children are able to develop their Welsh language skills in a relaxed, non-educational situation with friends which is ultimately having a huge positive effect on their attitudes towards the language".
>
> "The funding has supported us in gaining the support needed to ensure our policies and governing documents are translated effectively and correctly, We have most definitely benefited from having Elliw, our Welsh Language Development Officer! Nothing has been too much trouble for Elliw! She has made it super easy to share our various forms of evidence with her and she maintains regular contact to ensure we are on track"
>
> "The support we have received from Clybiau Plant Cymru has been absolutely invaluable! We could not have achieved our Bronze or Silver award without them! They regularly share amazing posters and resources with us through email plus their Facebook page. These make it so easy to use Welsh words and phrases with the children in a fun and appealing way. We are looking forward to our next award."










Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf,
Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW
Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni
Cyfyngedig trwy warant: 4296436

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs: Cefnogi'r Iaith Gymraeg
## Grant i Newid yr Iaith Weithredol i'r Gymraeg
## Clwb Plant Llandegfan, Ynys Môn

Mae Clwb Plant Llandegfan yn gweithredu o ystafell yn Ysgol Gynradd Llandegfan. Mae'r gwasanaeth yn derbyn plant rhwng 4 a 12 mlwydd oed, ac wedi ei gofrestru i ofalu am uchafswm o uchafswm o 24 o blant. Patricia Roberts yw'r person â gofal dros redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.


Dechreuodd Clwb Plant Llandegfan ar eu taith Addewid Cymraeg ym mis Mai 2023 fel gwasanaeth dwyieithog a oedd yn gweithio tuag at 'Gynnig Gweithiol' Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn dilyn cefnogaeth drwy'r Addewid Efydd gan ein Swyddog Datblygu Gofal Plant Cymraeg ymroddedig (WLCBDO), daeth ymrwymiad Patricia Roberts, y person â gofal, a'r staff, i ddod yn lleoliad Cymraeg ac i gynnig y Cynnig Gweithiol yn Gymraeg, i'r amlwg yn gyflym. Er mwyn cefnogi Llandegfan ymhellach i ddod yn lleoliad Cymraeg, fe'u cefnogwyd hefyd i gael mynediad at grant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i Newid yr Iaith Weithredol i'r Gymraeg; ariannwyd hyn drwy ein prosiect CYMell.

Mae'r grant ar gael i gefnogi lleoliadau cofrestredig AGC sy'n gweithio gyda'u Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant i newid eu hiaith weithredol i'r Gymraeg, gan ganiatáu iddynt dalu'r costau dan sylw, yn cynnwys; gweinyddu newid manylion cofrestru gydag AGC, a chyfieithu polisïau, arwyddion a marchnata. Gellir defnyddio'r grant hefyd i gefnogi cynaliadwyedd wrth iddynt farchnata eu darpariaeth yn eu hiaith newydd a hyfforddi neu recriwtio staff newydd â sgiliau iaith priodol.

Cydweithiodd Elliw a Patrica lawer ym mis Ionawr 2024 i barhau i symud ymlaen trwy'r Addewid Cymraeg Arian ac i gefnogi wrth iddynt weithio tuag at newid eu hiaith weithredol. Dywedodd Clwb Plant Llandegfan wrth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Medi 2024 bod y gwasanaeth bellach yn gweithredu yn Gymraeg. Byddant yn awr yn parhau i symud tuag at y dyfarniad Addewid Cymraeg Aur a gweithio tuag at gyrraedd eu Cynnig Cymraeg eu hunain drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd arweinydd Clwb Plant Llandegfan, Patricia, er bod y Cynnig Rhagweithiol wedi ei nodi fel arfer da yn ystod arolygiad, cyn rhyddhau "Yr Addewid Cymraeg," ar wahân i hynny, ychydig iawn yr oedd hi'n gwybod amdano. Gyda chefnogaeth 'Yr Addewid Gymraeg' ac arian gan brosiect CYmell, mae Clwb Plant Llandegfan bellach wedi newid iaith weithredol eu darpariaeth i'r Gymraeg ac yn credu'n gryf fod yr Addewid Cymraeg a chyllid drwy brosiect CYMell wedi cael effaith fawr ar y lleoliad, plant a'u teuluoedd:

> “Mae’n wych gallu darparu ffurflenni, dogfennau a pholisïau rhieni yn y Gymraeg a’r Saesneg heb i'r rhieni orfod gofyn am hyn. Mae hyn wedi arwain at leoliad llawer mwy cynhwysol i blant a'u teuluoedd. Mae'r staff wedi bod yn defnyddio'r Gymraeg yn llawer mwy gyda'r plant ac yn dathlu'r iaith trwy weithgareddau a gemau. Mae wedi bod mor galonogol , er enghraifft yn ein Clwb Pasg, pan ofynnodd y plant i mi roi ychydig o gerddoriaeth ymlaen ac roedd eu holl geisiadau am ganeuon yn ganeuon Cymraeg! Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith felly mae hyn yn sicr yn amlygu’r effaith rydyn ni’n ei chael i mi”.
>
> Nododd Patricia hefyd “Mae llawer o’r teuluoedd wedi dweud pa mor hyfryd yw hi i glywed eu plant yn sgwrsio â brodyr a chwiorydd yn Gymraeg gartref wrth chwarae. Oherwydd natur ein clwb lle mae chwarae’n cael ei ddewis yn rhydd credaf yn gryf fod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfa hamddenol, anaddysgol gyda ffrindiau, sydd yn y pen draw yn cael effaith gadarnhaol aruthrol ar eu hagweddau at yr iaith. ”
>
> "Mae'r cyllid wedi ein cefnogi i gael y cymorth sydd ei angen i sicrhau bod ein polisïau a'n dogfennau llywodraethu'n cael eu cyfieithu'n effeithiol ac yn gywir. Rydym yn bendant wedi elwa o gael Elliw, ein Swyddog Datblygu'r Gymraeg! Does dim byd wedi bod yn ormod o drafferth iddi! Mae hi wedi ei gwneud hi'n hawdd iawn rhannu ein gwahanol fathau o dystiolaeth â hi ac mae'n cynnal cyswllt rheolaidd i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn.”
>
> "Mae'r gefnogaeth a gawsom gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi bod yn gwbl amhrisiadwy! Fydden ni ddim wedi gallu ennill ein dyfarniad Efydd nac Arian hebddyn nhw! Maent yn rhannu posteri ac adnoddau anhygoel gyda ni yn rheolaidd trwy e-bost ynghyd â'u tudalen Facebook. Mae'r rhain yn ei gwneud hi mor hawdd defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'r plant mewn ffordd hwyliog a deniadol. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ein dyfarniad nesaf."









Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW
Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436